Prosiect :	**Ffermydd Gwynt Tirgwynt / Garreg Lwyd**
Teitl y Cyfarfod:	**Cyfarfod i roi'r Diweddaraf am y Llwybr Cludo**
Dyddiad/Amser:	**30 Mawrth 2016; 19:00**
Lleoliad:	**Y Royal Oak, y Trallwng, SY21 7DG**

Yn bresennol	Yn cynrychioli	Rôl
Mike Davis (MD)	Wind Prospect Ltd (WPL)	Rheolwr Prosiect Tirgwynt a Pheiriannydd y Perchennog
Emily Cheung (EC)	Awel Newydd Cyf	Rheolwr Prosiect Tirgwynt
Mike Whitbread (MWh)	RES	Rheolwr Datblygu Bryn Garreg Lwyd
Chris Jackson (CJ)	RES	Rheolwr Datblygu Bryn Garreg Lwyd
Sam Mayes (SM)	RES	Rheolwr Cysylltiadau Cymunedol Bryn Garreg Lwyd
Arolygydd Stuart Eckley (SE)	Heddlu Dyfed Powys	Swyddog Cyswllt â Chymunedau Powys
Michael Connell (MC)	Cyngor Cymuned Carreghofa	
Cyng. Nigel Bowen (NB)	Cyngor Cymuned Castell Caereinion	
Phil Davies (PD)	Cyngor Cymuned Dwyriw	
Frances Buckingham (FB)	Cyngor Cymuned Llandysilio	
Carol Davies (CD)	Cyngor Cymuned Llandysilio	
Mark Williams (MW)	Cyngor Cymuned Ffordun	

Diwygiadau/ychwanegiadau mewn coch wedi'u gwneud 4ydd Ebrill 2016

1. Cyflwyniadau
   - 1.1 Cyflwynodd y mynychwyr eu hunain a phwy roeddynt yn ei gynrychioli
   - 1.2 Cyflwynodd EC y cyfarfod fel diweddariad interim i'r cymunedau yr effeithir arnynt gan y gwaith ar y priffyrdd a'r cerbydau cludo ar yr A483/A5. Roedd hyn yn dilyn cais yng nghyfarfod blaenorol Grŵp Cyswllt Cymunedol Tirgwynt ym mis Ionawr.
2. Y diweddaraf am y gwaith ffordd
   - 2.1 Aeth EC drwy'r gwaith cyfredol a ragwelir ar hyd yr A5 a'r A483. Mae pum ardal - cilfan Lôn Rhallt (wedi'i gwblhau), cilfan Ardd-lin, lle aros (*layover*) yn Cei'r Trallwng/Pool Quay, cylchdro Croesoswallt, a chylchdro Five Crosses.
   - 2.2 Eglurodd EC nad yw'r dyddiadau i wneud y gwaith wedi'u cadarnhau gan fod angen llunio amryw o gytundebau a gofynion gwasanaeth.
   - 2.3 Holodd CD a oedd cilfan Lôn Rhallt wedi'i gwblhau gan fod yr ardal yn edrych yn anorffenedig. Esboniodd MD fod glaw trwm yn fuan ar ôl gosod y pridd yn y *grasscrete* wedi golygu bod y pridd wedi'i olchi allan a byddai angen rhoi rhagor yno a'i dacluso.
   - 2.4 Gofynnodd MC a fyddai'r cilfannau yn cael eu defnyddio gan y cyhoedd oherwydd byddai hyn yn atal y confois sy'n cludo cydrannau'r tyrbinau rhag eu defnyddio. Nododd MWh na fydd y rhain yn cael eu marcio yn llefydd parcio ac unwaith y bydd y glaswellt wedi tyfu drwy'r concrid, ni fyddant yn rhwydd i'w gweld i ddefnyddwyr y ffordd.

2.5 Mynegodd FB bryder fod peth gwaith i ddechrau ym mis Ebrill ac nad oedd dyddiadau pendant wedi'u rhyddhau eto. Holodd FB hefyd a wyddys am statws gwaith presennol ar y ffordd er mwyn cydlynu.

2.6 Eglurodd MWh nad oedd y dyddiadau eto wedi'u pennu gan fod hyn yn dibynnu a oedd gwasanaethau ar gael (e.e. BT a SP ManWeb) i gynnal y gwaith cychwynnol. Pwysleisiodd MWh fod pob caniatâd wedi'i gael ac mai cytundebau terfynol â Phriffyrdd a chontractwyr gwasanaeth oedd yn atal pennu dyddiadau ar gyfer y gwaith. Nododd SM fod llythyrau (sydd ar gael ar wefan Fferm Wynt Bryn Garreg Lwyd) wedi'u hanfon i'r eiddo perthnasol o gwmpas Lôn Rhallt cyn dechrau'r gwaith ac y byddai'r arfer hwn yn parhau ar gyfer gwaith ffordd arall lle credir y bydd effaith ar yr eiddo gerllaw. Caiff cynrychiolwyr etholedig gopi o flaen llaw o unrhyw lythyr sy'n cael ei yrru i aelodau eu hetholaeth.

2.7 Eglurodd MD er nad oedd y rheiny o gwmpas y bwrdd yn gallu cadarnhau statws gwaith ffordd arall yn yr ardal, eto byddai'r rheolwyr a thîmau adeiladu pwrpasol yn gallu ei ateb a byddai hyn dan eu rheolaeth i sicrhau na fydd gwrthdaro.

2.8 Nododd FB fod yr A5 (gwaith ar gylchdroeon Five Crosses a Chroesoswallt) yn ffordd hynod o brysur ac ni fyddai pobl leol yn croesawu'r amharu posibl ar ôl gwaith ffordd Mile End. Dywedodd MWh mai am gyfnod byr yn unig (hyd at wythnos) y byddai'r gwaith ffordd gan mai gwaith bychan yn unig ydoedd.

2.9 Soniodd MC fod sawl draen ar hyd y ffordd i'r de o Groesoswallt eisoes yn suddo yn sgil glaw trwm yn ystod y gaeaf. Nodwyd hyn gan gynrychiolwyr Bryn Garreg Lwyd a Thirgwynt. Holodd FB a roddwyd ystyriaeth i'r strwythurau ar hyd y llwybr. Dywedodd EC fod Asiantaeth y Cefnffyrdd i fod i yrru adroddiad a oedd yn asesu'r holl strwythurau ar hyd y gefnffordd (sydd dan berchnogaeth Llywodraeth Cymru). Dywedodd MC fod sôn yn flaenorol wedi bod am bont y gamlas yn Llanymynech, er hynny dywedodd EC o'u rhan nhw nid oedd dim byd wedi dod yn ôl yn dweud bod angen gwaith atgyfnerthu.

2.10 Holodd MC am statws y strwythurau ar hyd y llwybr. Dywedodd MD fod eiddo wedi'u nodi a bod dyddiadau arolwg yn cael eu cadarnhau gyda pherchnogion yr eiddo perthnasol a disgwylir y bydd yr arolygon yn cael eu cynnal o fewn y pythefnos nesaf.

2.11 Holodd FB pwy fyddai'n talu am y gwaith uwchraddio i'r ffyrdd neu'r strwythurau. Dywedodd EC mai'r datblygwr fyddai'n talu am y gwaith i alluogi cludo cydrannau'r tyrbinau a'r awdurdod perthnasol yn talu am yr holl waith cynnal a chadw arferol ar y ffyrdd.

2.12 Holodd MW a oedd angen unrhyw waith ar y cylchdroeon yn y Trallwng (ffordd yr orsaf a Stryd y Gigfran) gan y nodwyd yn flaenorol fod angen gwaith arnynt. Atebodd EC fod dadansoddiad wedi dangos nad oedd angen gwaith heblaw am ostwng y cerb wrth yr ynysoedd hollti wrth gylchdro bychan yr orsaf a rhywfaint o dynnu ychydig o arwyddion/dodrefn stryd.

3. Amserlenni cludo arfaethedig

3.1 Mae Tirgwynt yn bwriadu dechrau ar y cludo cyn gynted â phosibl ym mis Gorffennaf. Mae hyn wedi'i gyfyngu gan yr amodau cynllunio sy'n gysylltiedig â bridio adar nad yw'n caniatáu derbyn cydrannau'r tyrbinau tan 1af Awst. Mae Awel Newydd yn gweithio gyda'r swyddfa gynllunio i ganiatáu rhai teithiau cludo cyn 1af Awst i ysgafnhau pethau yn ystod mis Awst, gan y sylweddolir mai dyma'r tymor ymwelwyr.

3.2 Disgwylir y bydd cydrannau Tirgwynt yn dechrau cyrraedd ar ddiwedd Gorffennaf ac yn parhau hyd at ganol mis Medi ac yna bydd cydrannau Bryn Garreg Lwyd yn dechrau cyrraedd hyd ar ddiwedd 2016.

3.3 Holodd CD a ellid ystyried peidio â chludo'r cydrannau ar y penwythnosau gan mai dyma'r adeg arferol i ymwelwyr adael a chyrraedd eu llety gwyliau. Nodwyd bod Bryn Garreg Lwyd

yn ystyried hyd at 5 daith gludo'r wythnos ac nid 6 fel y nodwyd yn y cyflwyniad; felly, dywedodd MWh y gallai fod yn bosibl cynnwys hyn yn eu hamserlen.

3.4 Disgwylir y bydd y cydrannau ar gyfer Tirgwynt yn cyrraedd y Trallwng tuag amser cinio a'r posibilrwydd o ail lwyth ar ôl 7pm, yn unol â chyfyngiadau ar y symud yn y Trallwng sy'n golygu dim ond un confoi rhwng 7am a 7pm. Y nod fyddai cael yr ail symudiad i ddigwydd y tu hwnt i amser prysur y traffig gyda'r min nos.

3.5 Gofynnodd CD a fyddai taith dreial yn parhau i ddigwydd. Dywedodd EC fod taith dreial wedi'i phennu ar hyn o bryd ar gyfer yr wythnos yn dechrau Mehefin 27ain. Er ei bod yn ofyniad yng ngofyniad adran 106 ar gyfer Tirgwynt, dywedodd MD y byddai pawb perthnasol (heddlu, cyflenwr y tyrbinau, y cludwr a thîm y prosiect) angen un i gadarnhau fod cludo'r cydrannau yn bosibl. Nododd MWh nad oedd dyddiad taith dreial Bryn Garreg Lwyd wedi'i phennu eto gan fod y prosiect y tu ôl i Tirgwynt.

3.6 Nododd CD nad oedd llawer o amser rhwng y daith gludo gyntaf a'r daith dreial. Esboniodd EC a MD y dylai'r cyfrifiadau cefndir, y dylunio a'r beirianneg sicrhau mai bychain fyddai unrhyw waith diwygio, os bydd angen peth o gwbl.

3.7 Soniodd FB am reoliadau'r briffordd (2003) a oedd yn rhoi cyfyngiadau ar gyflymder i wahanol fathau o gerbydau yn dibynnu ar eu pwysau a'u dimensiynau. Gallai hyn gyfyngu cyflymder y confoi i 30mya neu 40mya yn dibynnu ar eu cyfluniad; mewn cyfarfod blaenorol roedd MD wedi dweud y byddai'r confoi yn symud ar gyflymder traffig arferol oni bai am gorneli, rhannau anodd teithio drwyddynt a rhiwiau. Nododd EC y byddai'r heddlu yn hebrwng holl gydrannau'r tyrbinau a byddant yn symud ar gyflymder y bydd yr heddlu yn pennu sy'n ddiogel; ni fyddai o fudd i neb fynd ar gyflymder anniogel gan y byddai unrhyw ddamwain yn achosi embaras i bawb perthnasol yn ogystal â bod ag oblygiadau costau. Eglurodd MD mai nod y sylw yn y cyfarfod blaenorol oedd chwalu unrhyw gamsyniadau y byddai'r confois yn symud yn araf iawn. **MD i wirio'r rheoliadau a nodwyd gan FB i sicrhau cydymffurfio.**

3.8 Holodd CD sut byddai'r heddlu yn delio â llwyth yn cludo cartref symudol (gan fod gweithdy yn gweithredu ym Mhant) petai'r rhain yn cwrdd ar y ffordd gan na fyddai confoi a chartref symudol yn gallu mynd heibio i'w gilydd. Eglurodd SE hyd yn oed heb gael yr heddlu i'w hebrwng, byddai'n rhaid i'r cwmni cartrefi symudol hysbysu'r heddlu am eu symudiadau. Petai'r senario hwn yn digwydd codi, byddai gan yr heddlu'r pŵer i'w stopio mewn lleoliad addas neu reoli'r traffig er mwyn sicrhau eu bod yn gallu mynd heibio i'w gilydd. Holodd CD wedyn beth fyddai'n digwydd gyda'r gwasanaethau brys. Dywedodd SE fod canolfan gwasanaeth ambiwlans Cymru wedi'i leoli yn yr un lle â phencadlys yr Heddlu a bod cyfathrebu cyson rhwng y ddau wasanaeth. Petai argyfwng yn codi, byddai tîm hebrwng yr heddlu yn cael gwybod ac yna câi'r confoi a'r traffig eu rheoli er mwyn peidio ag achosi oedi i'r ambiwlans/gwasanaeth brys. Dywedodd EC fod yr heddlu yn cynnal hyfforddiant ychwanegol i hyfforddi reidwyr motor beic a fyddai'n gallu rheoli'r sefyllfaoedd wrth iddynt godi.

3.9 Dyfynnodd MC fod sôn y byddai 32 neu ragor o gonfois mewn diwrnod yn y gorffennol. Cadarnhaodd MWh nad oedd hyn yn wir. Nododd MD na fyddai mwy na 2 gonfoi'r diwrnod yn dibynnu a oedd yr heddlu, y llwybr a'r cludwr ar gael.

3.10 Holodd MC a CD pwy yn union fydd yn hebrwng. Dywedodd SE y byddai 5 i 6 beic ac un car rheoli. Ychwanegodd MD y byddai gan y cludwyr eu hunain gerbyd hebrwng hefyd yn ogystal â'r 2 i 3 cerbyd yn cludo cydrannau'r tyrbin. Holodd MC ynghylch y llwybr dychwelyd. Dywedodd MD fod modd gwneud y cerbydau cludo yn llai unwaith fod y llwyth wedi'i ddadlwytho sy'n golygu y byddant wedyn yn gerbydau nwyddau trwm (HGV) o faint arferol

heb angen yr heddlu i'w hebrwng. Nododd EC fod drafft cyntaf Cynllun Rheoli Traffig Tirgwynt i'w cyflwyno i'r bobl berthnasol ar gyfer yr adolygiad cyntaf yr wythnos nesaf; a thrafodir y manylion ynddo. Y bwriad yw cytuno ar y Cynllun Rheoli Traffig cyn diwedd Ebrill.

4. Unrhyw Faterion Eraill

4.1 Dywedodd PD fod rhai pobl wedi awgrymu wrtho y dylid cau ffyrdd gwledig yn ystod y cyfnodau cludo'r tyrbinau (ar gyfer Tirgwynt). Eglurodd MD y byddai ffyrdd yn cau yn ystod gwaith ar y priffyrdd ond na fyddai angen cau ffyrdd wrth gludo'r cydrannau.

4.2 Holodd FB am y strategaeth gyfathrebu. Eglurodd EC y byddai hysbysiadau yn cael eu gosod mewn llefydd amlwg megis hysbysfyrddau, archfarchnadoedd a gorsafoedd petrol ar hyd y llwybr ac yn y Trallwng, byddai arwyddion yn cael eu gosod mewn llefydd strategol i rybuddio'r cyhoedd am y cludo fyddai'n digwydd ac oedi posibl. Yn ogystal, rhoddir gwybod i sawl gwefan (Traffic England a Traffig Cymru) ynghylch amseroedd y teithiau cludo. Holodd MW a fyddai hyn wedyn yn trosglwyddo i gyhoeddiadau traffig ar y radio. Dywedodd MD fod hyn yn cael ei archwilio ac (fel yr awgrymwyd gan PD, MW a NB) nododd mai Radio Stoke, BBC Wales, BBC Cymru a Heart oedd yr ymgeiswyr gorau ar gyfer cyhoeddiadau traffig. **MD i gadarnhau hysbysfyrddau/lleoliadau eraill yr oedd aelodau'r cyfarfod wedi dweud y byddai'n lleoliadau da ar gyfer hysbysiadau.**

4.3 Holodd FB pwy fyddai'n talu am yr heddlu i hebrwng. Dywedodd SE y byddai'r prosiect yn talu am yr hebrwng gan fod hon yn ddyletswydd ychwanegol.

Dosbarthu:

1. Rhestr mynychwyr
2. Nicola Quinn (Wind Prospect)
3. Llandrinio ac Ardd-lin
4. Menter Maldwyn
5. Cegidfa
6. Plwyf Llanymynech a Phant